

# Y Pwyllgor Cyllid

## Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Datgelu a Ganiateir) (Cymru) 2017

01. Mae'r Offeryn Statudol hwn yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cyllid o dan Reol Sefydlog 27.8A.

### Cefndir a diben

02. Mae'r Rheoliadau yn diwygio adran 18(1) o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (y Ddeddf), i ganiatáu i swyddog perthnasol (fel y'i diffinnir gan adran 17(2) o'r Ddeddf) ddatgelu gwybodaeth warchoddedig am drethdalwr (fel y'i diffinnir gan adran 17(3) o'r Ddeddf), i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) ac i Revenue Scotland. Gall hyn ddigwydd pan fo'r datgeliad yn gysylltiedig â swyddogaethau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, Revenue Scotland, neu Awdurdod Cyllid Cymru.

### Y weithdrefn

03. Cadarnhaol

### Craffu ar y rhinweddau

04. Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### Craffu ar bolisi

#### Datganiad ar y bwriad polisi

05. Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i graffu ar y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru), rhoddodd Llywodraeth Cymru wybodaeth am y **bwriad polisi** ar gyfer y pwerau dirprwyedig o fewn y Bil.

06. Mae pob un o'r rheoliadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn cyd-fynd â pholisiau cysylltiedig yn y datganiad.

07. Rhoddodd y datganiad y pŵer i Weinidogion Cymru drwy reoliadau (adran 17(2)) ddiwygio datgeliadau a ganiateir (adran 17(1)) yn y Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi. Byddai'r pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio er mwyn gallu rhannu gwybodaeth rhwng cyrff at ddibenion cefnogi darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus ehangach.



## Gwaith craffu Cyfnod 1 gan y Pwyllgor Cyllid

### *Ymgynghoriad y Cynulliad*

08. Nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ei hymateb i'r ymgynghoriad ar y Bil Casglu a Rheoli Trethi:

There also needs to be consideration of how public bodies might share certain information in order to minimise tax avoidance or evasion. The regulations should provide explicit powers to ensure that information sharing is permitted.

**Pwynt i gyflwyno adroddiad yn ei gylch:** Nid yw trefn ar gyfer rhannu gwybodaeth â chyrrff cyhoeddus wedi ei **chynnwys** yn rheoliadau'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi.

09. Dywedodd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr:

...the issue of consent in clause 17 1(a) (permitted disclosures) does need to be **tightened up** to define exactly what constitutes consent. If this is not done then disputes may arise regarding the evidence or otherwise that consent has been given. Where disclosure is made without consent under the other listed permitted situations, we believe that there **should be a duty to advise the taxpayer** of this action and the reasons why.

10. Roedd y Sefydliad Siartredig Trethiant (CIOT) yn pryderu am reoliadau sy'n ymwneud â datgeliadau a ganiateir:

In our view secondary legislation should be used only for procedural and administrative matters. There are four areas where a regulatory power is prescribed in the Bill that extends beyond the scope of procedure or administration. [One area is] the power to amend the conditions under which protected taxpayer information is disclosed (clause 17(2)). It is our view that such powers **belong properly in primary legislation**.

11. Cefnogwyd y datganiad hwn gan ymateb Deloitte.

### **Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru**

12. Ni wnaed unrhyw sylwadau yn yr ymgynghoriad ynghylch datgeliadau a ganiateir.

### **Rheoliadau'r DU**



13. Nid oes unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng y rheoliadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â datgeliadau a ganiateir i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

14. Fodd bynnag, fe wnaeth Llywodraeth yr Alban hefyd gynnwys rheoliad a oedd yn diwygio Adran 18(2) o Ddeddf y Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2015 er mwyn galluogi Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i ddatgelu gwybodaeth am drethdalwyr i Revenue Scotland yn hytrach nag i Weinidogion yr Alban. **Nid yw hyn wedi ei gynnwys** yn rheoliadau Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, byddai datgeliadau a ganiateir rhwng Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a Gweinidogion Cymru, ond nid rhyngddo ac Awdurdod Cyllid Cymru.

**Pwynt i gyflwyno adroddiad yn ei gylch:** Byddai datgeliadau a ganiateir rhwng Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a Gweinidogion Cymru, ond nid rhyngddo ac Awdurdod Cyllid Cymru.

## Ymateb y Llywodraeth

**Pwyntiau i'w nodi:** Nid yw rhannu gwybodaeth gyda chyrrff cyhoeddus wedi'i gynnwys yn rheoliadau'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi.

15. Mae'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi yn caniatáu datgelu gwybodaeth warchoddedig am drethdalwr i gyrff cyhoeddus dan amodau penodol. Mae adran 18 y Ddeddf yn caniatáu i swyddog perthnasol (yn ôl diffiniad adran 17(2) y Ddeddf) ddatgelu gwybodaeth o'r fath i bersonau eraill (gan gynnwys cyrrff cyhoeddus) os yw hynny at un o'r dibenion sy'n cael eu disgrifio yn adran 18 (ee at ddibenion ymchwiliad troseddol, neu os gwneir hynny yn unol â deddfiad sy'n gwneud ei datgelu yn ofynnol neu'n caniatáu hynny). Mae'r Ddeddf yn cyfyngu'n briodol ar yr amodau lle caniateir datgelu gwybodaeth er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth fwyaf sensitif am drethdalwyr yn cael ei defnyddio'n briodol a'i diogelu.

16. Nid yw adran 18 y Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi yn rhwystro corff cyhoeddus arall rhag datgelu gwybodaeth i ACC. Yn yr achosion hyn, y ddeddfwriaeth sy'n sail i'r corff cyhoeddus arall fydd fel rheol yn penderfynu a oes modd datgelu'r wybodaeth. Ceir pwerau rhannu gwybodaeth mewn deddfiadau eraill hefyd, er enghraifft mae adran 60 o'r Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol a Chorff Adnoddau Naturiol Cymru ddatgelu gwybodaeth i ACC at ddiben cynorthwyo i gasglu a rheoli'r dreth gwarediadau tirlenwi.



**Pwyntiau i'w nodi: Byddai achosion o ddatgelu a ganiateir rhwng Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a Gweinidogion Cymru, ond nid Awdurdod Cyllid Cymru.**

17. Fel y dywedwyd yn yr adroddiad, mae adran 18(2) (j) o Ddeddf Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005 yn ei gwneud yn bosib i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ddatgelu gwybodaeth i Weinidogion Cymru. Cafodd yr adran hon ei diwygio'n ddiweddar gan baragraff 64 o Atodlen 6 i Ddeddf Cymru 2017 er mwyn disodli'r cyfeiriad at "Gweinidogion Cymru" gyda chyfeiriad at "Awdurdod Cyllid Cymru", ac mae disgwyl iddo ddod i rym ar 1 Ebrill 2018. O ganlyniad, nid oes angen diwygio Deddf 2005 yn y Rheoliadau hyn.

### Safbwynt y Pwyllgor

18. Mae'r Pwyllgor yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru ac yn argymhell bod y Llywodraeth neu Awdurdod Cyllid Cymru yn cyhoeddi deunyddiau canllaw addas i gynorthwyo partïon â diddordeb i lywio'r gyfundrefn drethi ddatganoledig.

